OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif 1026 (Cy. 219)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun, Sir Benfro i Aberteifi, Ceredigion) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Hydref 2022* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu ei gyfyngu ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun, Sir Benfro i Aberteifi, Ceredigion) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Hydref 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(c) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 15 Hydref 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 7 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.**—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 a 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**10.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Dirymu**

**11.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun, Sir Benfro i Aberteifi, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021(**1**) wedi ei ddirymu.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**12.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Hydref 2022

---

(**1**) O.S. 2021/1492 (Cy. 391).

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 1, yr A487, High Street/West Street, Abergwaun hyd at y ffordd sy'n arwain at Parc y Morfa Farm, Abergwaun.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun hyd at bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth hyd at bwynt 245 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at ei chyffordd â chylchfan yr A487/A478 yn Aberteifi.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth hyd at bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 245 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.